YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD

POLISI : AMDDIFFYN PLANT

1. Nôd

Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, maent yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc.

2. Egwyddorion.

Mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol swyddogaeth bwysig i adnabod arwyddion o gamdriniaeth am esgeulustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn chwarae rhan i alluogi pob disgybl i gyflawni'r canlynol: -

- Bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol
- Cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da
- Teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith ddibynadwy a chariadus o fewn yr ysgol
- Dod yn gymwys i edrych ar eu hôl eu hunain a delio gyda byw bob dydd
- Bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth, diwylliant a hil.
- Datblygu sgiliau rhyngbersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Diffiniadau o gamdrin ac esgeuluso plant

Gall rhywun gamdrin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed.

Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd.

1. **Camdrin corfforol** – taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn. (Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio arwyddion iechyd.)

2. **Cam-drin emosiynol** – trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn.

3. **Cam-drin rhywiol** – gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.

4. **Esgeulustod** - methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn.

Dulliau gweithredu
Bydd y corf llywodraethol yn sicrhau drwy'r Cydlynydd Amddiffyn Plant/ Pennaeth fod Protocol Prosesau Mewnol yr ysgol yn cael ei gweithredu'n llawn yn unol â'r canllawiau ar gyfer athrawon a staff ategol yr ysgol (Gweler Protocol Ysgol).

Personau cyfrifol Amddiffyn Plant

Aelod o'r Llywodraethwyr

Enw: Ceri Ann Evans

Cydgysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol.

Enw: Janet George

Bydd y 'person cyfrifol' yn sicrhau bod holl staff sydd yn debygol o ddod i gysylltiad â'r disgyblion yn ymwybodol o broses mewnol yr ysgol yng nghyd-destun Amddiffyn Plant.
Dirprwy Cyd-gysylltydd – Enw: Eirian Madine

Hyfforddiant
Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod aelodau o staff yr ysgol a'r llywodraethwr penodedig yn cael mynediad rheolaidd i hyfforddiant yn y maes Amddiffyn Plant.

Cysylltiad â'r Cwricwlwm
Yn unol â chanllawiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol sicrheir fod elfennau o'r maes Amddiffyn Plant yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r cwricwlwm drwy sicrhau profiadau diddorol ac amrywiol i blant o ran tynnu sylw at sefyllfaoedd peryglus, hawliau'r unigolyn, perthynas ag eraill ac ymateb yn briodol mewn amrywiol sefyllfaoedd.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Adolygwyd: Corff Llywodraethol Dyddiad: 12.9.17

Janet Wyn George (Pennaeth)

Datganiad Corff Llywodraethol <u>Ysgol Bontnewydd</u>

Mabwysiadwyd Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gan y Corff Llywodraethol

Arwyddwyd …… …… **Cadeirydd….9.10.18**

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD

CHILD PROTECTION POLICY

1. **Aim**
   Every school has a pastoral duty towards its pupils, it has an important role in preventing abuse and negligence through generating a safe environment for children and young people.

2. **Principles.**
   The school's teachers and ancillary staff have an important role in identifying signs of abuse for possible negligence and refer their concerns to Social Services.

   Every child deserves the opportunity to achieve his maximum potential. Schools should ensure that they play a role to enable every pupil to achieve the following:-

   - Be as healthy as possible both physically and mentally
   - Gain maximum benefit from high quality educational opportunities
   - Feel that they are loved and appreciated, and supported by a reliable and loving network within the school
   - Become able to look after themselves and deal with everyday life
   - Have a positive self-image and safe awareness of identity, including self-identity, culture and race.
   - Develop good inter-personal skills and confidence in social situations.

Definitions of child abuse and negligence
A child may be abused or neglected through injury, or through failure to prevent injury.

A child or young person up to 18 years of age may suffer abuse or negligence and need to be protected through the Gwynedd Inter-agency Child Protection Scheme.

1. **Physical abuse –** striking, shaking, throwing, poisoning, burning or scalding, drowning, smothering, or inflicting any other kind of physical injury on a child. (Physical injury may also be caused when a parent or carer fake health symptoms.)

2. **Emotional abuse –** continually abuse a child that causes serious and continual ill-effects to a child's emotional development.

3. **Sexual abuse –** force a child or young person to participate in a

sexual act, whether or not the child is aware of what is going on.

4. **Negligence –** a persistent failure to meet a child's basic physical and/or psychological needs.

Implementation methods
The governing body will ensure through the Child Protection Co-ordinator/Headteacher, that the school's Internal Processes Procedure is fully implemented in accordance with the guidelines for teachers and school support staff (see Appendix 1).

Those with Designated responsibility for Child Protection
Member of the Governors

Name: Ceri Ann Evans

Co-ordinator from amongst the school's senior managers.

Name: Janet George

The 'responsible person' ensures that the entire staff who are likely to come into contact with pupils are aware of the school's internal process within the context of Child Protection.
Deputy ' Responsible Person' – Eirian Madine

Training
The Governing Body ensures that members of school staff have regular access to training in the Child Protection field.

Links with the Curriculum
In accordance with Personal and Social Education guidelines, it is ensured that elements of the Child Protection field are included as an integral part of the curriculum through providing children with interesting and diverse experiences through drawing attention to dangerous situations, the individual's rights, the relationship with others and appropriate response in various situations.

This policy is reviewed annually.

Reviewed: Governing Body Date: 12/9/17

Janet Wyn George (Headteacher)

Bontnewydd School Governing Body Statement

The All Wales Child Protection Guidelines have been adopted by the Governing Body

Signed …… …… **……** … …….. .**Chairperson…..9.10.18…….**

YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD
PROTOCOL YSGOL – AMDDIFFYN PLANT
Canllawiau i Athrawon a Staff Ategol

Os yw disgybl yn dweud wrthych eu bod nhw neu ddisgybl arall yn cael eu camdrin yna:

1) Dangoswch eich bod wedi clywed a deall yr hyn y maent wedi ei ddweud, ac eich bod yn cymryd yr honiad o ddifrif.

2) Anogwch y plentyn i siarad, ond heb bromptio na gofyn cwestiynau arweiniol

- peidiwch â thorri ar ei draws
- peidiwch â gwneud i'r plentyn ailadrodd

3) Esboniwch y camau y mae'n rhaid i chwi eu cymryd mewn ffordd sydd yn addas i oed a dealltwriaeth y disgybl.

- ysgol fach – pennaeth
- ysgol fwy – cydgysylltydd amddiffyn plant

4) Peidiwch addo a chadw'r hyn ddywedwyd wrthych yn gyfrinach gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai sydd ag angen gwybod.

5) Gwnewch nodyn o'r dyddiad, yr amser, y fan, a'r bobl oedd yn bresennol gan ei arwyddo.

6) Cyflwynwch yr adroddiad a'ch pryderon i'r cydgysylltydd amddiffyn plant / pennaeth.

7) Yn ddibynnol ar ddifrifoldeb yr achos swyddogaeth y pennaeth yw penderfynu os oes angen cyfeirio'r achos i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

8) Os oes angen cyngor pellach yna cysylltwch â'r

i)	Swyddog Addysg Ardal	-	Delyth Griffiths
ii)	Swyddog Lles Addysg	-	Angela Owen
iii)	Nyrs Ysgol	-	Nia Williams
vi)	Gwasanaethau Cymdeithasol	-	Swyddog Dyletswydd

Y Pennaeth yn unig all gyfeirio. (Y Dirprwy yn ei habsenoldeb)
Rhaid adolygu'r polisi hwn yn flynyddol/hyn yn statudol.

Rhaid cofnodi bod adolygiad wedi digwydd

SCHOOL PROTOCOL – CHILD PROTECTION
Guidelines for Teachers

If a pupil notifies you that they or another pupil is being abused then:-

1) Indicate that you have heard and understood what they have said; and that you take their allegation seriously.

2) Encourage the child to talk, but without prompting or asking leading questions

   - do not interrupt
   - do not make the child reiterate

1) Explain the steps you have to take in a way that is appropriate for the pupil's age and understanding.

   - small school – headteacher
   - larger school – child protection co-ordinator

1) Don't pledge to keep what you were told confidential as you have a responsibility to divulge information to those who need to know.

2) Make a note of the date, the time, the place, and the signatories.

3) Present the report and your concerns to the child protection co-ordinator/headteacher.

7) Depending on the seriousness of the case, it is the headteacher's duty to decide whether the case needs to be referred to Social Services.

8) If further advice is required, contact

   i) The Area Child Protection Officer – Delyth Griffiths
   ii) Education Welfare Officer - Angela Owen
   iii) School Nurse - Nia Williams
   iv) Social Services - Duty Officer